Nodiadau Cefndirol – Dadansoddiad Cydraddoldeb

Pwrpas a chwmpas y datganiad hwn
Mae'r datganiad yma'n cyflwyno dadansoddiad o effaith canlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2022 ar grwpiau penodol o ddysgwyr, o gymharu â'r newidiadau a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Oherwydd y trefniadau asesu a dyfarnu gwahanol a ddigwyddodd, nid oes modd cymharu canlyniadau 2020, 2021 a 2022 yn uniongyrchol â'i gilydd nac â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol. Dylai'r cyfyngiadau o ran cymaroldeb gael eu cadw mewn cof wrth ddehongli newidiadau yn y canlyniadau.

Ffynhonnell y Data
Ar gyfer canlyniadau yn ôl rhywedd, defnyddiwyd ffigurau cyhoeddedig y Cydgyngor Cymwysterau gan mai dyma'r data mwyaf cyflawn sydd ar gael. Ar gyfer dadansoddiadau eraill, daw'r data TGAU ar gyfer 2021 a chyn hynny o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Casglwyd data canlyniadau TGAU ar gyfer 2022 yn uniongyrchol gan gyrff dyfarnu a'u cysylltu â data CYBLD i gael nodweddion disgyblion. Daw data UG a Safon Uwch ar gyfer 2021 a chyn hynny o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru, CYBLD a Chofnodion Dysgu Gydol Oes Cymru. Casglwyd data canlyniadau UG a Safon Uwch ar gyfer 2022 yn uniongyrchol gan gyrff dyfarnu a'u cysylltu â data CYBLD a Chofnodion Dysgu Gydol Oes Cymru i gael data dysgwyr i'w dadansoddi yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc). Cynhaliwyd dadansoddiad Malc drwy gysylltu codau post dysgwyr â degradd cyffredinol Malc gan ddefnyddio mynegai MALIC 2019.

Mae data Cronfa Ddata Arholiadau Cymru yn cynnwys ysgolion a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae data Cofnodion Dysgu Gydol Oes Cymru yn cynnwys darparwyr addysg bellach. Nid oes data hanesyddol ar gael ar gyfer canolfannau preifat ac annibynnol felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad Malc a'r dadansoddiad o fylchau cyrhaeddiad TGAU, ac eithrio ar gyfer rhywedd, sy'n cynnwys pob dysgwr.

Nid oes gwybodaeth am ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a chod post y dysgwr ar gael ar gyfer pob dysgwr. Ac eithrio dadansoddiad yn ôl rhywedd, dim ond dysgwyr yr oedd data nodweddion ar gael ar eu cyfer sy'n cael eu cynnwys ym mhob dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.

Dylanwadau allanol
Yn 2022, aeth arholiadau'r haf yn eu blaenau am y tro cyntaf ers 2019. Cafodd trefniadau amgen eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn haf 2020 a haf 2021 oherwydd bod arholiadau wedi'u canslo oherwydd y pandemig. Er mwyn adlewyrchu

effaith y pandemig ar ddysgwyr, cafodd newidiadau eu gwneud i asesiadau a'r polisi graddio er mwyn sicrhau, cyn belled â phosib, bod canlyniadau haf 2022 yn deg i ddysgwyr. Cafodd canlyniadau yn haf 2022 eu dyfarnu hanner ffordd yn fras rhwng haf 2019 a haf 2021.

Dulliau ystadegol

Fe wnaethon ni ganolbwyntio'r dadansoddiad o fylchau cyrhaeddiad ar y prif grŵp oedran ar gyfer pob cymhwyster: dysgwyr 18 oed ar gyfer Safon Uwch, dysgwyr 17 oed ar gyfer UG, a dysgwyr 16 oed ar gyfer TGAU. Mae grwpiau oedran yn seiliedig ar oedran dysgwyr ar 31 Awst ym mhob blwyddyn. Mae hyn yn dileu effaith ailsefyll ac yn gwneud y cymariaethau yn y dadansoddiad mor ddilys â phosibl. Mae'r dadansoddiad TGAU yn cynnwys pob TGAU cwrs llawn a gwyddoniaeth dyfarniad dwbl, oni nodir yn wahanol. Mae graddau gwyddoniaeth dyfarniad dwbl wedi'u cyfrif fel dwy radd ar wahân. Mae'r data UG a Safon Uwch yn cynnwys yr holl gymwysterau dyfarniad sengl. Oherwydd nad oes data oedran ar gael ar gyfer pob dysgwr, mae'r dadansoddiad yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys pob oedran.

Mae bylchau cyrhaeddiad yn cael eu cyfrifo fel y gwahaniaeth pwynt canran mewn canlyniadau canrannol rhwng categorïau o ddysgwyr ar bob gradd. Felly, er enghraifft, mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhywiau ar raddau A* i A yn cael ei gyfrifo fel canran cyfanswm y graddau a ddyfarnwyd i ddysgwyr benywaidd a oedd yn A* neu A, llai canran cyfanswm y graddau a ddyfarnwyd i ddysgwyr gwrywaidd a oedd yn A* neu A.

Mae'r adroddiad yma'n cynnwys siartiau sy'n dangos bylchau cyrhaeddiad gan grwpiau pwnc y Cyd-gyngor Cymwysterau. Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn y siartiau'n ddibynadwy, dim ond pynciau sy'n bodloni isafswm y graddau a ddyfarnwyd ym mhob grŵp nodwedd ym mhob blwyddyn y mae'r siartiau hyn yn eu cynnwys. Mae hyn wedi'i wneud oherwydd gall meintiau sampl bach yn aml gynhyrchu bylchau pwyntiau canrannol sy'n edrych yn eithafol ond sydd mewn gwirionedd oherwydd nifer fach iawn o raddau, ac felly'n annibynadwy. Ar gyfer TGAU y trothwy yw 100 gradd, ac ar gyfer UG a Safon Uwch y trothwy yw 30 gradd. Mae data ar gyfer pob pwnc, gan gynnwys y pynciau nad ydyn nhw yn y siartiau, ar gael yn y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad yma.

Cyfyngiadau'r data

Fel arfer mae gwahaniaethau mewn canlyniadau yn ôl nodweddion dysgwyr, gyda gwahaniaethau mwy ar gyfer rhai grwpiau nodweddion dysgwyr oherwydd meintiau sampl llai sy'n golygu bod y canlyniadau'n sensitif i newidiadau ar gyfer nifer fach o ddysgwyr. Mae'r ystadegau yn yr adroddiad yma'n disgrifio canlyniadau yn 2022 o gymharu â blynyddoedd blaenorol yn ôl grwpiau nodweddion dysgwyr. Nid yw'r ystadegau hyn yn esbonio pam fod gwahaniaethau wedi digwydd. Gallan nhw fod o

ganlyniad i newidiadau yng ngallu dysgwyr yn y grwpiau nodweddion o flwyddyn i flwyddyn, neu sy'n astudio pwnc penodol. Gall y mathau hyn o ffactorau ddylanwadu ar wahaniaethau yng ngraddau asesu canolfannau yn ogystal â chanlyniadau safonedig.

Lle mae'r grŵp nodweddiadol yn ddeuaidd (e.e. yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu beidio) caiff gwahaniaethau mewn canlyniadau eu mynegi mewn pwyntiau canran (pp). Mae newid o 10 pwynt canran mewn grŵp nodweddion gyda chanlyniadau o 50% yn cynrychioli maint newid gwahanol i grŵp nodweddion â chanlyniadau o 90%. Wrth ystyried y gwahaniaethau mewn canlyniadau, neu fylchau cyrhaeddiad, mae'n bwysig nodi y gall y gwahaniaethau hyn newid oherwydd bod canlyniadau'r naill grŵp neu'r llall, neu'r ddau, yn amrywio. Mae dadansoddiad ystadegol sy'n gysylltiedig â nodweddion sy'n cael eu gwarchod mewn deddfwriaeth cydraddoldeb yn cael ei gyfyngu gan argaeledd data sy'n mesur y nodwedd.

Amdanom ni a'n hystadegau
Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru

Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 yn enwi Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae'r datganiad yma'n cael ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol, gan gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Sicrhau ansawdd
Mae manylion o ran sut rydyn ni'n sicrhau ansawdd y data yma'n cael eu cynnwys yn ein Datganiad Interim am Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad ystyrir bod yr ystadegau'n addas i'r diben.

Diwygiadau
Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, ni fydd y data ar raddau cyffredinol cymwysterau sydd wedi'u dyfarnu fel arfer yn cael eu diwygio, ond efallai y caiff datganiadau dilynol eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall. Ceir mwy o wybodaeth yn ein Polisi Diwygiadau a Chywiriadau.

Talgrynnu a Chyfrinachedd
Yn unol â pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, mae ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigyrau ar gyfer nifer y canolfannau yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau i gyd yn seiliedig ar ffigyrau sydd heb eu talgrynnu. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddan nhw'n cyfateb i'r cyfanswm.

Gwybodaeth ddefnyddiol
Mae geirfa o dermau ar gael ar ein gwefan i'ch helpu i ddehongli'r datganiad yma. Mae modd i chi gael gwybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cronfa ddata QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig
Cyhoeddodd Ofqual ystadegau ar ddadansoddiad cydraddoldeb TGAU a Safon Uwch ar gyfer Lloegr.

Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA).

Ystadegau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA).

Ystadegau a gyhoeddwyd gan Eurostat.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn ac adborth
Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r system gymwysterau. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn debygol o fod o ddiddordeb i Ofqual a rheoleiddwyr cymwysterau eraill, cyrff dyfarnu, canolfannau (ysgolion a cholegau) a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth ar yr ystadegau hyn ac mae modd eu darparu drwy e-bost at ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2022) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.